

‘Nid yw’r gad yn medi’r gair’
Cerddi Rhyfel Cymraeg 1960-2012

Traethawd MPhil

Manon Wynn Davies

Prifysgol Aberystwyth

2012

I

Er rhoi gwerth i'r aberth ddrud drwy roi'i glod
I'r gwledydd, rhoi dedfryd
Ar Ryfel ofer hefyd,
Di-werth yw'r aberth o hyd.

II

Digoncwest, er ei lestair yn ieuanc,
Yw ei awen ddisglair;
Nid yw'r gad yn medi'r gair,
Nid yw'r gwaed ar y Gadair.

(Alan Llwyd, 'Hedd Wyn')

DATGANIAD

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r gwaith hwn, oni nodir yn wahanol. Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm gwaith, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

GOSODIAD 3

Yr wyf yn rhoi caniatâd i'm traethawd gan ei adneuo yng Nghadwrfa Ymchwil Sefydliadol y Brifysgol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'm cyfarwyddwr, Huw Meirion Edwards, am ei holl gymorth, ei arweiniad, a'i amynedd, wrth imi lunio'r traethawd hwn. Rydw i'n ddiolchgar hefyd i staff Adran y Gymraeg yn Aberystwyth am eu hanogaeth, ac i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am ysgoloriaeth i wneud y radd. Diolch i Mam a Dad am eu cefnogaeth barhaus, ac i Dad am ddarllen y gwaith a chynnig sylwadau gwerthfawr. Diolch hefyd i Llinos, Gethin ac Osian, a'm ffrindiau, am roi lle i ymlacio ac i chwerthin dros baned, o hyd.

Crynodeb

Yn y traethawd hwn, edrychir ar gerddi rhyfel Cymraeg a ysgrifennwyd ac a gyhoeddwyd rhwng 1960 a 2012. Daw'r cerddi a drafodir o gyfrolau beirdd unigol, o'r cylchgrawn *Barddas* ac o gyfrolau'r gyfres *Pigion Talwrn y Beirdd*, yn bennaf, ac o'u casglu ynghyd, dangosir bod cofnodi a sylwebu ar ryfeloedd yn draddodiad sy'n parhau yn y Gymraeg.

Yn y bennod gyntaf, trafodir ymddangosiad y pabi coch yn y cerddi, ei arwyddocâd a'i holl symbolaeth, cyn troi at ddelweddau natur eraill, a'r cyfeiriadau'n clymu'r cerddi diweddar â chanu rhyfel cyfnod y Rhyfel Mawr, lle'r oedd delweddaeth natur yn hawlio lle amlwg. Cerddi am y Rhyfel Byd Cyntaf, ac i raddau llai, yr Ail Ryfel Byd, yw'r cerddi a drafodir yn y bennod gyntaf.

Ymdrin â rhyfeloedd y degawdau diwethaf yn bennaf y mae cerddi'r ail bennod, ac edrychir yn benodol ar y modd y sylweba'r cyfryngau ar y rhyfeloedd hynny gan roi gwedd adloniannol ar eu hadroddiadau ar brydiau a gan bellhau'r gwyliwr oddi wrth y gyflafan. Ymdrinnir â chofnodion diriaethol o ryfel a ddarperir gan luniau'r camera, ac edrychir hefyd ar luniau haniaethol y cof. Â'r bennod rhagddi i drafod anallu dyn i gyfleu rhyfel trwy eiriau, anwybodaeth a diffyg cydymdeimlad cymdeithas fodern, a datblygiadau technoleg rhyfel.

Mae'r bennod olaf yn archwilio'r modd y Cymreigia'r beirdd y profiad o ryfel. Edrychir yn gyntaf ar y gyfeiriadaeth yn y cerddi diweddar at yr hengerdd, at chwedlau'r Mabinogi ac at gymeriad Heledd. Yna, troir at gerddi i Hedd Wyn, i'r Ysgwrn ac i'r Gadair Ddu, a chymeriad Hedd Wyn yn cynrychioli colled cenhedlaeth gyfan o Gymry. Cerddi i ryfel y Falklands/Malvinas yw'r cerddi olaf a drafodir. Fe gyfeirir yn benodol at golled y gwarchodlu Cymreig yn nhrychineb bomio'r Sir Galahad, a rhoir sylw i'r berthynas arbennig rhwng Cymru a'r Wladfa, gan gryfhau'r llinyn Cymreig.

CYNNWYS

1. 'Yn fy ngeiriau brau, brau innau': Cyflwyniad	1
2. 'Gardd o waed, ond gwyrdd yw hi': Y Pabi a Delweddau Natur Eraill	14
3. 'Y cymhlethdod modern': Cyfryngau Gwybodaeth a Thechnoleg Rhyfel	42
4. 'Yn nhrueni yr heniaith': Y Profiad Cymreig o Ryfel	78
5. Diwedd glo	114
6. Llyfryddiaeth	123